Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 811 (Cy. 163)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) (Diwygio) 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ragnodi drwy Orchymyn drefniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013 ("Gorchymyn 2013") yn rhoi effaith gyfreithiol i'r trefniadau asesu ar gyfer darllen a rhifedd i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol (ac eithrio unrhyw un a sefydlwyd mewn ysbyty) yng Nghymru. Yn benodol, mae Gorchymyn 2013 yn darparu bod rhaid i'r pennaeth anfon canlyniadau'r asesiadau darllen a rhifedd naill ai i'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg ("y SCYA") neu at Weinidogion Cymru.

Nid yw'r SCYA yn casglu canlyniadau'r asesiadau darllen a rhifedd mwyach. Rhaid i ganlyniadau'r asesiadau yn y dyfodol gael eu hanfon at Weinidogion Cymru yn unig. Yn unol â hynny, mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2013 er mwyn dileu unrhyw gyfeiriad at y SCYA (erthygl 2(a) ac (e)).

O'r adeg y daw'r Gorchymyn hwn i rym bydd disgybl yn gallu sefyll fersiwn ar-lein o'r asesiadau. Bydd y fersiynau ar-lein o'r asesiadau yn cael eu marcio'n awtomatig gan feddalwedd gyfrifiadurol a bydd y canlyniadau yn cael eu cyflwyno'n awtomatig i Weinidogion Cymru gan feddalwedd gyfrifiadurol. Yn yr achosion hynny nid yw'r ddyletswydd ar y pennaeth i farcio'r asesiadau yn unol â chynllun marcio'r PC (a ddiffinnir yn erthygl 2(1) o Orchymyn 2013) a chyflwyno marciau'r asesiadau i Weinidogion Cymru yn briodol. Yn unol â hynny, mae erthygl 2(b), (c) a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) o'r Gorchymyn hwn yn datgymhwyso'r dyletswyddau hynny ar gyfer y disgyblion hynny sy'n sefyll y fersiynau ar-lein o'r profion.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 811 (Cy. 163)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) (Diwygio) 2018

*Gwnaed* — *3 Gorffennaf 2018*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* — *4 Gorffennaf 2018*

*Yn dod i rym* — *1 Medi 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 108(2)(b)(iii) a (3)(c), ac adran 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2018.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i ysgolion a gynhelir (ac eithrio'r rheini a sefydlwyd mewn ysbytai) yng Nghymru.

**Diwygio**

**2.** Mae Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a

(**1**) 2002 p. 32; diwygiwyd adran 108(2) a (3) er mwyn hepgor cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhoi cyfeiriadau at Weinidogion Cymru yn ei le gan baragraffau 11 i 13 o'r Atodlen i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Rhifedd) (Cymru) 2013(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yn erthygl 2(1) hepgorer y diffiniad o "y SCYA";

(b) yn erthygl 3 ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) Nid yw paragraff (3) yn gymwys i ddisgyblion sy'n sefyll y fersiwn ar-lein o'r PDCCS.";

(c) yn erthygl 4 ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) Nid yw paragraff (3) yn gymwys i ddisgyblion sy'n sefyll y fersiwn ar-lein o'r PDCCC.";

(d) yn erthygl 5 ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) Nid yw paragraff (3) yn gymwys i ddisgyblion sy'n sefyll y fersiwn ar-lein o'r PRhC."; ac

(e) yn erthyglau 5(3)(b) a 6 hepgorer "neu i'r SCYA".

*Kirsty Williams*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
3 Gorffennaf 2018

(**1**) O.S. 2013/433 (Cy. 51).